Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu yn y DU

Cais am dystiolaeth

CAIS AM DYSTIOLAETH

Dyddiad Cyhoeddi: 2 Chwefror 2021

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 16 Mawrth 2021

Trosolwg

Fel rhan o *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, rydym am edrych yn fanylach ar y berthynas sy'n bodoli heddiw rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu.

Cafodd y rheolau a'r canllawiau rheoleiddio presennol eu llunio pan oedd y sector a'r ffordd roedd cynulleidfaoedd yn defnyddio cynnwys yn wahanol iawn. Ein nod yw deall effaith rheoleiddio ar y berthynas wrth iddi addasu i newidiadau yn amodau'r farchnad. Yn benodol, rydym yn gofyn am dystiolaeth ynghylch a fydd angen newid unrhyw reolau er budd gwylwyr, i gefnogi cynaladwyedd ariannol cynhyrchwyr a chomisiynwyr yn well, a sicrhau amrywiaeth ac apêl y sector.

Fel sail i'n hargymhellion i lywodraeth y DU, rydym yn gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth gan randdeiliaid am effeithiolrwydd yr agweddau craidd ar reoleiddio sy'n berthnasol i'r maes hwn nawr ac yn y dyfodol.

1. Cais am dystiolaeth

1.1 Ym mis Rhagfyr, gwnaethom gyhoeddi Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, sef ymgynghoriad yn edrych ar sut mae cryfhau a chynnal cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt.[1]

1.2 Nod Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr yw sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn parhau i fwynhau amrywiaeth o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus gwreiddiol o ansawdd uchel yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn gynaliadwy, bydd rhaid i'r fframwaith rheoleiddio sy'n berthnasol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ('PSBs') yn y DU fod yn gydnaws â'r amgylchedd ar-alw sy'n fwyfwy cystadleuol.

1.3 Mae'r sector cynhyrchu teledu yn y DU yn llwyddiannus ar lefel ryngwladol, yn rhan amrywiol a chystadleuol o'n heconomi greadigol ac mae'n adlewyrchu'r DU yn gadarnhaol ledled y byd. Yn ein hymgynghoriad, gwnaethom nodi'r rôl hollbwysig y mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi'i chwarae o ran sicrhau ei gryfder parhaus.

1.4 Mae'r berthynas rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr wedi newid dros y blynyddoedd. Yn 2004, roedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyfrifol am oddeutu 87% o holl gomisiynau'r DU[2] ac roeddent yn cynrychioli dros hanner (56%) holl gynnwys y DU.[3]

1.5 Heddiw, mae'n ddarlun gwahanol iawn. Mae amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaethau sy'n cystadlu am sylw gwylwyr a mwy o fuddsoddiad gan gwmnïau fel Sky, Discovery a Netflix wedi gweld y gwariant ar gynyrchiadau yn y DU yn tyfu'n sylweddol, i werth o rhwng £4.5bn a £5bn yn 2018.[4] Er y newidiadau hyn, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw comisiynwyr cynnwys mwyaf y DU o hyd, gan wario oddeutu £2.8bn ar raglenni newydd yn y DU bob blwyddyn.[5]

1.6 Fel y dywedom yn ein hymgynghoriad,[6] rydym eisiau edrych yn fanylach ar y berthynas sy'n bodoli heddiw rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu. Ein nod yw deall effaith rheoleiddio ar y berthynas wrth iddi addasu i newidiadau yn amodau'r farchnad. Hefyd, rydym am ystyried pa oblygiadau y gallai unrhyw newidiadau i'r rheolau eu cael ar sector cynhyrchu'r DU, gan gynnwys beth gallai hyn ei olygu i gynulleidfaoedd, cynaliadwyedd ariannol cynhyrchwyr a chomisiynwyr, ac amrywiaeth ac apêl y sector.

---

[1] Ofcom, 2020. Sgrin fach: Trafodaeth Fawr - Ymgynghoriad: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus.
[2] Ofcom, 2006. Adolygiad o'r sector cynhyrchu teledu. Tudalen 48.
[3] Ofcom. 2006. Adolygiad o'r sector cynhyrchu teledu - datganiad polisi. Tudalen 19.
[4] Yn ôl amcangyfrif Ofcom (2006), roedd gwariant rhaglenni comisiwn a ddangoswyd am y tro cyntaf ar gynyrchiadau yn y DU tua £2.6bn yn 2004. Gan ddefnyddio data gwariant Ofcom/darlledwyr ar y rhwydwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sianeli portffolio a rhanbarthol, amcangyfrifon Enders Analysis o wariant SVOD, ac amcangyfrifon COBA o wariant amlsianel rydym yn amcangyfrif bod gwariant rhaglenni comisiwn a ddangoswyd am y tro cyntaf ar gynyrchiadau yn y DU rhwng £4.5bn a £5bn yn 2018.
[5] Dadansoddiad Ofcom o ddata darlledwyr. Buddsoddodd y prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus £2.5bn mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn 2019.
[6] Paragraff 1.17 a 5.43.

Y sector cynhyrchu yn y DU heddiw

Y diwydiant cynhyrchu

1.7 Yn y DU, mae'r diwydiant cynhyrchu'n seiliedig ar ecoleg gymysg o gynhyrchwyr annibynnol mawr a bach - hynny yw, cwmnïau nad yw rhannau helaeth ohonynt yn eiddo i ddarlledwr yn y DU - sy'n cydfodoli gyda changhennau cynhyrchu mewnol a gweithgareddau allanol y darlledwyr. Mae tua 450 o gwmnïau cynhyrchu,[7] yn amrywio o gwmnïau arbenigol bach i gwmnïau rhyngwladol mawr sydd, mewn rhai achosion, â throsiant uwch na'r darlledwyr maent yn gwneud rhaglenni ar eu cyfer.

1.8 Mae'r sector wedi'i wasgaru ar draws y DU gyda chynhyrchwyr annibynnol y tu allan i Lundain yn ennill cyfran gynyddol o wariant comisiynu allanol – 43% o'r prif wariant comisiynu yn 2019.[8] Yn debyg iawn i weithluoedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae'r sector annibynnol yn dal i symud y tu allan i'r M25 gyda 37% bellach wedi'u lleoli y tu allan i brifddinas Lloegr, gan fod comisiynu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran ysgogi cynhyrchu ledled y DU. Yn ôl Pact, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyfrifol am 61% o gomisiynau gan gynhyrchwyr annibynnol y tu allan i Lundain.

1.9 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cryfder cydnabyddedig y DU fel canolfan gynhyrchu wedi helpu i gefnogi cylch o dwf a buddsoddi mewn rhaglenni, gan gynnwys refeniw o dramor. Rhwng 2008 a 2019, tyfodd refeniw o gomisiynau rhyngwladol 18% o un flwyddyn i'r llall ar gyfartaledd, ac mae gwariant amlsianel wedi mwy na threblu ers 2004. Y canlyniad yw, er mai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw'r comisiynwyr aml-genre mwyaf yn y DU o hyd, mae grwpiau aml-sianel yn y DU, sianeli rhyngwladol a gwasanaethau ffrydio nawr yn chwarae rhan bwysicach nac erioed o'r blaen. Roedd cyfrifiad 2020 Pact yn dangos bod sector cynhyrchu annibynnol y DU bellach yn cynhyrchu dros hanner ei refeniw o'r ffynonellau hyn, ac mae disgwyl y bydd hyn yn parhau i dyfu.

Y rheoliadau presennol

1.10 Mae'r rheoliadau sy'n effeithio ar y broses o gomisiynu rhaglenni gan gynhyrchwyr annibynnol yn deillio o ddeddfwriaeth a gafodd ei ddiweddaru'n sylweddol ddiwethaf drwy Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae dau brif ymyriad sy'n berthnasol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus:

a) **cwota cynhyrchu annibynnol:** bob blwyddyn, mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ymrwymo i gomisiynu o leiaf 25% o'u rhaglenni cymwys i amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol;[9] a

b) **chodau ymarfer:** mae'n rhaid i ddarparwyr pob sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig lunio cod ymarfer sy'n nodi'r egwyddorion y byddant yn eu defnyddio wrth gytuno ar delerau ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol, a'u diwygio yn ôl yr

[7] Mediatique. 2020. State of the markets in which BBC Studios operates. Tudalen 43
[8] Cyfrifiad 2020 Pact ynghylch y sector cynhyrchu teledu yn y DU, dadansoddiad Oliver and Ohlbaum.
[9] Deddf Cyfathrebiadau 2003, adran 277. Mae darpariaethau cyfatebol hefyd yn berthnasol i'r BBC ac S4C.

angen.[10] Mae darlledwyr yn rhoi'r codau hyn ar waith ar sail canllawiau a gyhoeddwyd gan Ofcom.[11]

1.11 Dim ond yng nghyswllt 'cynhyrchwyr annibynnol'[12] a 'rhaglenni cymwys,'[13] y mae'r ymyriadau hyn yn berthnasol, ac mae'r ddau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth.[14]

Materion y tu allan i'r cwmpas

1.12 Mae rhagor o reolau penodol ynghylch rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu y tu allan i Lundain, yn ogystal â chwotâu rhanbarthol a chenedlaethol, sy'n berthnasol i holl fuddsoddiadau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn rhaglenni, gan gynnwys cynyrchiadau mewnol. Nid ydym yn gofyn am dystiolaeth ynghylch effaith y rheolau hyn gan mai dim ond yn ddiweddar, 1 Ionawr 2021, y daeth ein canllawiau diweddaraf ar gynyrchiadau rhanbarthol i rym[15]

1.13 Rydym yn gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth benodol am y sector teledu a chynhyrchu ar-alw. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu panel i gael cyngor pellach am newidiadau yn y dyfodol ac maent hefyd yn cynnal adolygiad o Ddyfodol Radio a Sain, ac mae Ofcom yn rhoi mewnbwn i'r adolygiad hwn.

Ffocws y cais hwn am dystiolaeth

1.14 Cafodd y rheolau presennol sy'n effeithio ar gynyrchiadau annibynnol eu dylunio pan oedd y sector a'r ffordd roedd cynulleidfaoedd yn defnyddio cynnwys yn wahanol iawn. Y tro diwethaf i ni edrych ar y berthynas rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu oedd yn 2015.[16]

1.15 Fel sail i'n hargymhellion i lywodraeth y DU fel rhan o *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, rydym yn gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth gan randdeiliaid am effeithiolrwydd yr agweddau craidd ar reoleiddio sy'n berthnasol i'r maes hwn nawr ac yn y dyfodol.

1.16 Yn benodol, rydym yn dymuno deall a ydynt yn credu bod newidiadau i batrymau defnyddio cynulleidfaoedd a datblygiadau ehangach yn y farchnad yn golygu y byddai'n briodol diweddaru ein canllawiau ar gomisiynu cynyrchiadau annibynnol, rhywbeth y gallem ei wneud heb ddeddfwriaeth newydd. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed eich safbwyntiau ynghylch sut gellir datblygu'r canllawiau hyn i sicrhau eu bod yn

---

[10] Deddf Cyfathrebiadau 2003, adran 285.
[11] Gweler datganiad Ofcom ar 21 Mehefin 2007 o'r enw "Canllawiau ar gyfer Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yng nghyswllt llunio Codau Ymarfer ar gyfer gwaith comisiynu gan gyfarwyddwyr annibynnol".
[12] Mae'r diffiniad 'cynhyrchwyr annibynnol' yn golygu cynhyrchwyr nad ydynt yn cael eu cyflogi gan ddarlledwr, heb gyfranddaliad sy'n fwy na 25% mewn darlledwr, ac nad ydynt yn gorff corfforaethol lle mae gan unrhyw un darlledwr gyfranddaliad sy'n fwy na 25% (neu lle mae gan unrhyw ddau ddarlledwr neu ragor gyfranddaliad cyfun sy'n fwy na 50%).
[13] Mae 'rhaglenni cymwys' yn cyfeirio at yr oriau rhaglennu hynny y gellir eu defnyddio i gyfrif at gwotâu cynhyrchu. Mae diffiniad rhaglenni cymwys yn gymharol eang er mwyn cynnwys gymaint o raglenni gwreiddiol â phosibl (gan eithrio, er enghraifft, rhaglenni sy'n cael eu prynu, ailddarllediadau a newyddion).
[14] Gweler adran 277(2) Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991 (S.I. 1991/1408), fel y cafodd ei ddiwygio ar ôl hynny.
[15] https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/tv/regional-production-programming
[16] Adroddiad Ofcom i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 23 Rhagfyr 2015, o'r enw 'Adolygiad o weithrediadau'r sector cynhyrchu teledu'; gweler yma.

parhau i gynnig hyblygrwydd a manteision i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid, ac yn caniatáu ar gyfer trafodaethau prydlon i adlewyrchu amodau'r farchnad sy'n newid.

1.17 Rydym hefyd yn awyddus i glywed barn rhanddeiliaid ynghylch a ydynt yn credu y dylem argymell opsiynau i Lywodraeth y DU ar gyfer newidiadau posibl i naill ai lefel y cwota cynhyrchu annibynnol neu i ddiffiniadau cynhyrchydd annibynnol a rhaglenni cymwys. Yn wahanol i'n canllawiau ar gomisiynu cynyrchiadau annibynnol, byddai'r newidiadau hyn yn galw am ddiwygio deddfwriaethol.

1.18 Gyda'r datblygiadau a amlinellir uchod mewn golwg, rydym yn gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth benodol gan randdeiliaid ynghylch effaith rheoleiddio mewn tri maes:

i) **Darparu ar gyfer cynulleidfaoedd y DU** – wrth i batrymau gwylio cynulleidfaoedd newid, a yw'r rheoliad presennol yn effeithiol ac yn hyblyg o ran sicrhau bod cynifer o gynulleidfaoedd gwahanol â phosib yn parhau i gael mynediad at amrywiaeth eang o raglenni o ansawdd uchel.

ii) **Cefnogi cynaladwyedd ariannol cynhyrchwyr, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chomisiynwyr eraill –** yng ngoleuni datblygiadau mewn technoleg a'r farchnad cynnwys ehangach, a yw'r rheoliad presennol yn creu unrhyw rwystrau sy'n effeithio ar allu cynhyrchwyr i ddatblygu busnesau llwyddiannus neu ar allu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynnal perthynas â chynulleidfaoedd yn y DU, neu a ydynt yn debygol o greu rhwystrau yn y dyfodol.

iii) **Sicrhau naws ddeinamig ac apêl y sector cynhyrchu yn y DU –** a fydd y fframwaith rheoleiddio presennol yn parhau i chwarae rôl gadarnhaol o ran sicrhau bod y diwydiant cynhyrchu yn y DU yn denu buddsoddiad a'i fod mewn sefyllfa dda i gymryd mantais o gyfleoedd i dyfu ymhellach.

Ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth

1.19 Fel rhan o'n hymarfer ymgynghori ehangach ar gyfer ein rhaglen waith *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr,* rydym yn gwahodd partïon sydd â diddordeb i ymateb i'r Cais hwn am dystiolaeth **erbyn 16 Mawrth 2021**. Mae **Atodiad 1** y ddogfen hon yn cynnwys y cwestiynau rydym yn gofyn am dystiolaeth a chyfraniad yn eu cylch. Edrychwch ar **Atodiad 2 i 4** ein hymgynghoriad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* i gael gwybodaeth am sut mae ymateb (Atodiad 2), egwyddorion ymgynghori Ofcom (Atodiad 3) a dalen gyflwyno'r ymgynghoriad (Atodiad 4).

1.20 Dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, byddwn yn cynnal cyfnod helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y berthynas rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr annibynnol. Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn y Cais hwn am dystiolaeth neu yn *Sgrin fach: Trafodaeth Fawr*, cysylltwch â'r tîm drwy anfon e-bost at sgrinfach.trafodaethfawr@ofcom.org.uk.

Y camau nesaf

1.21 Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a'r wybodaeth gan randdeiliaid, ynghyd ag unrhyw ymateb arall i'n hymgynghoriad *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr* fel sail i'n hargymhellion terfynol i Lywodraeth y DU yn ystod haf 2021. Mae'n bosibl, drwy ymatebion i'n

hymgynghoriad a thrafodaethau gyda phartïon sydd â diddordeb, ac wrth i'r dirwedd cyfryngau ddatblygu, y byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y maes gwaith hwn y tu hwnt i'n hargymhellion i Lywodraeth y DU yn ystod yr haf, yn enwedig os byddwn yn dod i'r casgliad ei bod yn briodol diweddaru ein canllawiau.

A1. Cwestiynau

Rydym yn gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth am y cwestiynau am y cwestiynau isod. Wrth ateb y cwestiynau hyn, ystyriwch sut mae rheoleiddio'n effeithio ar y meysydd sydd wedi'u nodi ym mharagraff 2.18, a dylech ddarparu tystiolaeth i gefnogi eich ateb lle bo hynny'n bosibl.

Cwestiwn 1: Oherwydd y newidiadau i batrymau gwylio cynulleidfaoedd a datblygiadau ehangach yn y farchnad, a ddylai Ofcom ddiweddaru unrhyw agwedd ar ei Ganllawiau ar gomisiynu cynyrchiadau annibynnol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben?

Cwestiwn 2: A ddylai Ofcom argymell unrhyw newid i'r cwota cynhyrchu annibynnol i Lywodraeth y DU fel rhan o'i rhaglen '*Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*'?

Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau posibl i'r diffiniadau 'rhaglenni cymwys' neu 'gynyrchiadau annibynnol' y dylai Ofcom eu hargymell i Lywodraeth y DU fel rhan o'r rhaglen '*Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*'?